

**Arolygiad o Ddarparwr
Gofal Iechyd Annibynnol
(lle rhoddwyd rhybudd)
Beauty Within Medi Spa**

9 Chwefror 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd amgen a fformatau eraill gael eu llunio, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau	7
	Ansawdd profiad y claf	7
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	13
6.	Y Camau Nesaf.....	15
	Atodiad A.....	16

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu weithiwr
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru¹.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo hyn yn briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn dyddiad yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau yn cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

² Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses diffyg cydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae Beauty Within Medi Spa wedi'i gofrestru'n ysbyty annibynnol gan ei fod yn darparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 a Thechnoleg Golau Pwls Dwys (IPL)³ yn 10 Stryd Fawr, Y Bont-faen. Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf yn 2003.

Mae gan y clinig dîm o staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig a thri gweithredwr laser sy'n darparu triniaethau laser a Golau Pwls Dwys. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 16 mlwydd oed:

System laser Golau Pwls Dwys Plasmalite ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Diflewiad
- Ieuangu'r croen
- Gwaredu ar wythiennau edau.

System laser Dornier Diode ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu ar wythiennau edau
- Gwaredu ar friwiau fasgwlaidd
- Dafadennau a ferwcau.

System laser Soprano Diode ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu gwallt.

System laser aml dro Harmony ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Lleihau Crychau
- Triniaeth ar gyfer acne a chreithiau acne
- Pigmentiadau
- Lleihau croendyllau agored

³ Mae Golau Pwls Dwys yn dechnoleg ffynhonnell olau sbectrwm eang sy'n cael ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i berfformio triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetaidd a therapiwtig.

- Tynhau'r croen
- Gwaredu tatŵ

4. Crynodeb

Gwnaethom nodi nifer o feysydd i'w gwella ac achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn. Nodir manylion pellach ynglŷn â'r gwelliannau hyn yn Atodiad A.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwella sicrwydd ansawdd a threfniadau rheoli'r gwasanaeth hwn, yn unol â gofynion y rheoliadau a'r safonau. Mae hyn yn bwysig i sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

Er nad yw hyn wedi arwain at hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn. Byddai methu â gwneud hynny'n arwain o bosibl at AGIC yn cymryd camau oherwydd diffyg cydymffurfio â rheoliadau.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Roedd gan y gwasanaeth system ar waith i gasglu barn y cleifion
- Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar eu triniaeth a'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Gwelsom fod angen i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddariadau i'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben
- Hyfforddiant staff ar gyfer defnyddio'r peiriannau golau pwls dwys/laser
- Trefniadau ar gyfer diogelwch yr amgylchedd ac offer laser/golau pwls dwys, gan gynnwys adolygu'r rheolau lleol, ymweliad ar y safle gan Gynghorydd Diogelu Rhag Laserau a diogelwch y peiriant golau pwls dwys pan nad yw'n cael ei ddefnyddio
- Systemau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed
- Trefniadau ar gyfer rheoli risg ac iechyd a diogelwch, gan gynnwys diweddariadau i'r asesiad risg tân
- Diweddariadau i bolisïau a gweithdrefnau
- Systemau ar gyfer rheoli a monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn gofynion y rheoliadau a'r safonau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth. Dywedwyd wrthym y cynhelir ymgynghoriad ar lafar gyda'r cleifion cyn triniaeth, sy'n cynnwys trafodaeth am risgiau a manteision y driniaeth.

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn rhoi gwybodaeth i gleifion er mwyn iddynt ei darllen ac ystyried eu triniaeth gartref. Gwelsom dystiolaeth yn dangos y gofynnwyd i gleifion roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y driniaeth a ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth ôl-driniaeth a roddwyd i gleifion er mwyn eu helpu gyda gofal dilynol.

Gwelsom fod cofnod o driniaethau yn cael ei gynnal ac wedi'i adolygu'n ddiweddar, ond gwelsom nad oedd hwn yn cynnwys unrhyw le i gofnodi unrhyw effeithiau niweidiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cynnwys manylion ynghylch unrhyw effeithiau niweidiol o fewn y cofrestrau triniaethau.

Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)

Roedd copi o'r canllaw i gleifion ar gael yn y dderbynfa ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n ofynnol. Gwelsom nad oedd canllawiau'r claf yn cynnwys adroddiad arolygu mwyaf diweddar AGIC, y gellir ei weld ar wefan AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.

Rhaid rhoi copi o'r canllaw i gleifion i AGIC.

Er bod canlyniadau'r arolwg boddhad cleifion blaenorol wedi eu cynnwys yn y canllaw i gleifion, nid oedd yn glir faint o arolygon a oedd dan sylw. Gwelsom fod y canllaw yn hir iawn ac y byddai'n fuddiol i'w gydgrynhoi i'w wneud yn haws i gleifion gael gafael ar yr wybodaeth berthnasol. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi sylw i hyn.

Roedd datganiad o ddiben ar gael, ac roedd yn darparu'r wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir, ond gwelsom fod angen gwneud y diweddariadau canlynol:

- Mae'n rhaid i'r cymwysterau perthnasol i staff gynnwys dyddiadau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁴
- Mae angen diweddaru'r disgrifiad o'r triniaethau a ddarperir gan bob aelod o staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid diweddaru'r datganiad o ddiben, yn benodol cymwysterau staff a'r triniaethau a ddarperir gan bob gweithredwr laser.

Rhaid rhoi copi o'r datganiad o ddiben i AGIC.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r gwasanaeth ddosbarthu holiaduron AGIC i gael barn y cleifion ynghylch y gwasanaeth. Cwblhawyd 19 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Roedd yr holiaduron yn dangos bod y rhan fwyaf o'r cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn cytuno â'r datganiadau bod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus, a bod y staff yn gwrtais, yn ofalgar, yn gwrando, ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth system ar waith i gasglu adborth gan gleifion. Roedd holiaduron cleifion ar gael yn yr ystafell aros a dywedwyd wrthym fod holiaduron yn cael eu dosbarthu i gleifion ar sail ad hoc. Hefyd, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth wedi dadansoddi adborth gan gleifion ac mae hyn wedi ei gynnwys yn y canllaw i gleifion.

⁴ Bwriedir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio systemau laserau a Golau Pwls Dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau golau pwls dwys a laserau yn ddiogel.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y rheolwr cofrestredig a phawb sy'n gweithio gyda pheiriannau laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth cyfredol o fewn y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan un o'r gweithredwyr laser gofnodion hyfforddiant a oedd wedi'u cofnodi ar gyfer defnyddio peiriannau laser/golau pwls dwys. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn hytrach na gwneuthurwr y peiriant wedi darparu'r hyfforddiant, ond nid oedd hyn wedi'i gofnodi. Gwnaethom drafod addasrwydd yr hyfforddiant hwn a'r gofynion rheoleiddiol i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod wedi dangos dealltwriaeth o ran sut i ddefnyddio'r offer laser/golau pwls dwys yn ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau laser a golau pwls dwys ond yn cael eu defnyddio gan staff sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant priodol ac sydd wedi dangos dealltwriaeth o ran sut i ddefnyddio'r offer yn gywir ac yn ddiogel, yn unol â Rheoliad 45.

Dylai unrhyw hyfforddiant mewnol a ddarperir i staff gael ei gofnodi ac mae'n rhaid trafod addasrwydd hyn gyda'r Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau.

Gwnaethom edrych ar y rheolau lleol, sy'n rhoi manylion am sut i ddefnyddio'r offer yn ddiogel. Ni chawsom ein sicrhau bod y rheolau lleol wedi'u hadolygu'n flynyddol gan y Cynghorydd Diogelu Rhag Laser yn unol ag amodau cofrestru AGIC. Mae hyn oherwydd nad oedd y rheolau lleol wedi cael eu llofnodi a'u dyddio gan y Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau ac nid oedd unrhyw gyfeiriad at y gwaith o adolygu'r rheolau lleol yn yr adroddiad diweddaraf a ddarparwyd gan y Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu hadolygu o leiaf un waith y flwyddyn gan y Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau.

Roedd cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y peiriant laser, ond gwnaethom sylwi bod dau bâr o gyfarpar diogelu llygaid wedi'u difrodi ac roedd angen cael rhai newydd. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn. Yn dilyn yr arolygiad, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai modd defnyddio cyfarpar diogelu llygaid eraill hyd nes y byddai'r sbectolau newydd yn cyrraedd.

Gwnaethom drafod trefniadau'r gwasanaeth gyda'r Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau. Roedd y gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad â'r Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod hyn wedi bod trwy hunanasesiadau o bell yn hytrach nag ymweliad â'r gwasanaeth ar y safle. Ni chynhaliwyd ymweliad â'r safle gan y Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau ers 2011. Ar y cyfan, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y trefniadau hunanasesu gyda'r Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau yn ddigonol i helpu i sicrhau diogelwch yr amgylchedd, y cyfarpar (gan gynnwys y cyfarpar diogelu llygaid), a'r cleifion yn y gwasanaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid amddiffyn diogelwch a lles cleifion. Yn benodol, rhaid i'r Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau gynnal asesiad ar y safle o ddiogelwch yr offer a'r amgylchedd yn y gwasanaeth.

Rhaid anfon copi o adroddiad ymweld diweddaraf y Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau at AGIC.

Gwelsom dystiolaeth bod y peiriannau laser/golau pwls dwys wedi cael eu gwasanaethu yn rheolaidd. Gwelsom olau ac arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth i ddangos pryd roedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau hefyd bod drysau'r ystafell driniaeth ar glo pan oedd yn cael ei defnyddio, er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Gwelsom fod yr allweddi cychwyn ar gyfer y peiriannau laser wedi'u cadw'n ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd allweddi cychwyn gan y peiriant golau pwls dwys i atal unrhyw un heb awdurdod rhag eu defnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried y trefniadau diogelwch ar gyfer y peiriant golau pwls dwys pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed (Safon 11)

Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau i blant sydd dros 16 oed.

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae angen mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Ni chwblhawyd hyfforddiant amddiffyn plant nac oedolion sy'n agored i niwed gan y rheolwr cofrestredig na'r gweithredwyr laser
- Bydd yn rhaid ystyried a diweddarau'r wybodaeth a'r trefniadau ar gyfer cydsyniad rhieni a phlant i driniaeth yn ofalus iawn.

- Roedd angen adolygu a diweddarau'r polisi amddiffyn plant i gynnwys manylion ynghylch y weithdrefn y dylai staff ei dilyn pe byddai pryder yn ymwneud â diogelu, gan gynnwys cysylltiadau diogelu lleol
- Roedd angen adolygu'r polisi amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed i nodi'n eglur y weithdrefn y dylai staff ei dilyn pe byddai pryder yn ymwneud â diogelu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i brosesau cadarn fod ar waith er mwyn sicrhau lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod yn defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys adolygu polisiâu, gweithdrefnau a hyfforddiant ar gyfer staff.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, ond gwelsom fod angen ei ddiweddarau i gynnwys manylion pellach ynghylch y trefniadau ar gyfer glanhau yn y gwasanaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau'r polisi rheoli heintiau i gynnwys mwy o fanylion am drefniadau glanhau.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)

Gwnaethom edrych ar y trefniadau cynnal a chadw yn y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth bod y clinig wedi cynnal gwiriad gwifrau yn yr adeilad ac roedd tystysgrif ddiweddar ar gyfer gwiriad nwy ar gael. Nid oedd unrhyw lifft yn y gwasanaeth.

Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu cynnal gan y rheolwr cofrestredig a ddywedodd wrthym eu bod nhw'n gymwysedig i wneud hyn. Cyngorwyd y rheolwr cofrestredig i drafod hyn gyda'i Gynghorydd Diogelu Rhag Laserau.

Gwelsom hefyd fod y gwasanaeth yn defnyddio deunyddiau/sylweddau sy'n cael eu dynodi o dan y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)⁵. Fe'n

⁵ COSHH yw'r gyfraith sy'n mynnu bod cyflogwyr yn rheoli sylweddau peryglus i iechyd. Mae rhagor o wybodaeth ar Wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch trwy ddilyn y ddolen <http://www.hse.gov.uk/cosh/index.htm>

hysbyswyd y cedwir taflenni data diogelwch ar gyfer yr holl sylweddau, ond nid oeddent yn cynnwys asesiadau risg cynhwysfawr. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i gyfeirio at y canllawiau a ddarperir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg COSHH cynhwysfawr yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl sylweddau peryglus a ddefnyddir yn y gwasanaeth.

Gwelsom fod asesiadau risg amgylcheddol wedi'u darparu ar gyfer pob peiriant laser.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch rhag tân. Gwelsom dystiolaeth bod diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn, ac roedd arwyddion wedi'u gosod i ddangos yr allanfeydd tân. Gwelsom fod asesiad risg tân wedi'i gwblhau, fodd bynnag, gwelsom fod hwn wedi'i gynnal cyn cyflwyno Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a bod angen ei ddiweddarau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl fesurau a rhagofalon priodol ar waith i amddiffyn iechyd a diogelwch cleifion a staff yn y gwasanaeth hwn. Yn benodol, dylai'r rheolwr cofrestredig ail gynnal asesiad risg tân gan ddefnyddio'r canllawiau a rheoliadau tân diweddaraf.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom edrych ar sampl o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, oherwydd y diweddariadau y mae angen eu gwneud i'r polisïau diogelu a rheoli heintiau, gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn adolygu gweddill eu polisïau a'u gweithdrefnau i sicrhau bod y rhain yn unol â gofynion y safonau a'r rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)

Roedd polisi cwynion ar waith, ond gwelsom fod angen gwneud diweddariadau. Roedd y polisi hefyd yn cynnwys cyfeiriadau camarweiniol at "glinigwyr" ac yn atgyfeirio cleifion i'r "Cyngor Meddygol Cyffredinol" Oherwydd nad yw aelodau staff yn y gwasanaeth yn weithwyr proffesiynol clinigol neu feddygol cymwysedig, gwnaethom ddweud wrth y rheolwr cofrestredig i gael gwared ar y cyfeiriadau hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid diweddarau'r polisi cwynion.

Mae'n rhaid cael gwared ar gyfeiriadau anghywir at weithwyr a chyrff meddygol proffesiynol.

Cofnodwyd cwynion mewn ffeil, ynghyd â gohebiaeth a anfonwyd gan y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym nad oedd cwynion ar lafar/anffurfiol yn cael eu cofnodi. Gwnaethom gynghori y byddai taflen grynodedb ar gyfer cwynion yn helpu i nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg fel modd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Rheoli cofnodion (Safon 20)

Dywedwyd wrthym fod nodiadau cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn ardal dan glo.

Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan y rheolwr cofrestredig wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a oedd wedi'i ddyddio yn y tair blynedd diwethaf yn unol

â'r rheoliadau. Fodd bynnag, roedd angen i'r gweithredwyr laser ddiweddarau eu gwiriadau DBS.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r holl weithredwyr laser feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd ddiwethaf.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod staff yn cael arfarniadau blynyddol a bod staff newydd yn dilyn rhaglen gynefino a oedd yn cynnwys adolygu'r polisïau, y gweithdrefnau, a sut i ddefnyddio'r offer. Dywedwyd wrthym y cynhaliwyd cyfarfodydd staff bob wythnos ac y byddai unrhyw newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwella trefniadau sicrwydd ansawdd a threfniadau rheoli'r gwasanaeth hwn, yn unol â gofynion y rheoliadau a'r safonau. Roedd yn amlwg hefyd bod angen i'r rheolwr cofrestredig wella'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r gofynion hyn.

Mae gweithredu trefniadau sicrhau ansawdd a threfniadau llywodraethu cadarn, ac ymateb prydlon gan y darparwr cofrestredig wrth ddatrys problemau yn arwyddion pwysig o allu darparwr i redeg ei wasanaeth gyda gofal, cymhwysedd a medr digonol. Mae disgwyl, felly, i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrion i roi sylw i'r materion hyn, oherwydd gallai methu â gwneud hynny olygu y bydd AGIC yn cymryd camau ar gyfer peidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid gweithredu systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a'r rheoliadau, fel modd o fodloni'r goblygiadau cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau laser diogel ac effeithiol i gleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar gyfer y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A'r arolygiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut y rhoddir sylw i'r gwelliannau a nodwyd yn Beauty Within Medi Spa, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth: **Beauty Within Medi Spa**

Dyddiad yr arolygiad: **9 Chwefror 2016**

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
7	Dylai manylion ynghylch unrhyw effeithiau niweidiol gael eu cynnwys o fewn y cofrestrau triniaethau.	Rheoliad 23 (1) a 45 (2)	Diweddaru pob un o'r 6 chofnod triniaeth	Neil Moaksom	1 mis
7	Rhaid diweddaru'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau. Rhaid rhoi copi o'r canllaw i gleifion i AGIC.	Rheoliad 7	Diweddaru'r Canllaw i gleifion a'i gyflwyno i'r Rheoleiddiwr	Neil Moaksom	2 fis
8	Rhaid diweddaru'r datganiad o ddiben, yn benodol cymwysterau staff a'r triniaethau a ddarperir gan bob gweithredwr laser. Rhaid rhoi copi diwygiedig o'r	Rheoliad 6 (1) ac Atodlen 1	Diweddaru'r Datganiad o Ddiben a rhoi copi i'r Rheoleiddiwr	Neil Moaksom	2 fis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	datganiad o ddiben i AGIC.				
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
9	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau laser a golau pwls dwys ond yn cael eu defnyddio gan staff sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant priodol ac sydd wedi dangos dealltwriaeth o ran sut i ddefnyddio'r offer yn gywir ac yn ddiogel, yn unol â Rheoliad 45. Dylai unrhyw hyfforddiant mewnol a ddarperir i staff gael ei gofnodi ac mae'n rhaid trafod addasrwydd hyn gyda'r Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau.	Rheoliadau 45 Safon 25	Dogfennu hyfforddiant diogelwch laser mewnol ar gyfer Pippa De Klerk. Bydd y cynghorydd diogelu rhag laserau yn goruchwyllo ac yn cymeradwyo	Neil Moaksom	Dau fis
9	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu hadolygu o leiaf un waith y flwyddyn gan y Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau.	Amodau cofrestru AGIC Rheoliad 15 (1) a (2) Safon 16	Bydd y Rheolau Lleol yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau. DS Gwnaethpwyd hyn gan ein Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau cyn yr arolygiad hwn ond ni chafodd ei lofnodi.	Neil Moaksom	2 wythnos
10	Rhaid amddiffyn diogelwch a lles	Rheoliad 15	Mae ymweliad gan y Cynghorydd	Neil	2 fis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	cleifion. Yn benodol, rhaid cynnal asesiad ar y safle o ddiogelwch yr offer a'r amgylchedd yn y gwasanaeth gan y Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau. Rhaid anfon copi o adroddiad ymweld diweddaraf y Cynghorydd Diogelu Rhag Laserau at AGIC.	(1), (2) ac 19 (1) (2) Safon 16	Diogelu Rhag Laserau wedi'i drefnu ar gyfer 4 Ebrill 2016. Bydd copi o'r adroddiad ymweld yn cael ei anfon i AGIC.	Moaksom	
10	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried y trefniadau diogelwch ar gyfer y peiriant golau pwls dwys pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.	Rheoliad 15 (2) a 45 (3)	Cafodd y peiriant laser Plasmalite ei weithgynhyrchu heb ddarpariaeth ar gyfer allwedd. Caiff y trefniadau diogelwch ar gyfer yr adegau pan nad yw'r peiriant hwn yn cael ei ddefnyddio eu hadolygu.	Neil Moaksom	1 mis
11	Rhaid i brosesau cadarn fod ar waith er mwyn sicrhau lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod yn defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys adolygu polisiâu, gweithdrefnau a hyfforddiant ar gyfer staff.	Rheoliad 16 Safon 11	Diweddarau gwaith papur y Polisi Amddiffyn Plant. Trefnu hyfforddiant ar gyfer POVA a Diogelwch plant	Neil Moaksom	2 fis
11	Mae'n rhaid diweddarau'r polisi rheoli heintiau i gynnwys mwy o fanylion ynghylch y trefniadau glanhau.	Rheoliad 9 (n)	Diweddarau'r polisi Rheoli Heintiau	Neil Moaksom	1 mis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
12	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg COSHH yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl sylweddau peryglus a ddefnyddir yn y gwasanaeth.	Rheoliad 9; 19 (b); 26 (2) (a) Safon 22	Cynnal asesiad risg COSHH wedi'i ddiweddarau. Cyflawnwyd hyn cyn yr arolygiad hwn ond defnyddiwyd deunydd canllaw hŷn	Neil Moaksom	2 fis
12	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl fesurau a rhagofalon priodol ar waith er mwyn amddiffyn iechyd a diogelwch cleifion a staff yn y gwasanaeth hwn. Yn benodol, dylai'r rheolwr cofrestredig ail gynnal asesiad risg tân gan ddefnyddio'r canllawiau a rheoliadau tân diweddaraf.	Rheoliad 15 (1), (2); 19(1); 26(5)(b) Safon 22	Ail gynnal asesiad risg tân gan ddefnyddio'r canllawiau diweddaraf. DS Cyflawnwyd ac adolygwyd hyn cyn yr arolygiad hwn ond defnyddiwyd deunydd canllaw hŷn.	Neil Moaksom	10 wythnos
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
13	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau.	Rheoliad 9	Adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau	Neil Moaksom	2 fis
13	Rhaid diweddarau'r polisi cwynion. Mae'n rhaid cael gwared ar	Rheoliad 24	Diweddarau'r polisi cwynion	Neil Moaksom	2 wythnos

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	gyfeiriadau anghywir at weithwyr a chyrff meddygol proffesiynol.				
13	Mae'n rhaid i'r holl weithredwyr laser feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd ddiwethaf.	Rheoliad 12(2) (c) ac Atodlen 2	Mae'r gwiriad DBS ar gyfer Neil Moaksom ac Amanda Moaksom bellach wedi ei dderbyn. Rydym yn aros am y Gwiriad DBS ar gyfer Pippa De Klerk.	Neil Moaksom	3 wythnos
14	Rhaid gweithredu systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a'r rheoliadau, fel modd o fodloni'r goblygiadau cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau laser diogel ac effeithiol i gleifion.	Rheoliad 19 Safon 1	Adolygu polisiâu a gweithdrefnau Rheoliad 19 Safon 1	Neil Moaksom	2 fis

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras) NEIL MOAKSOM

Teitl: Y rheolwr cofrestredig

Dyddiad: 17/3/2016